

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Rhif 29) 2024

Darpariaeth Arfaethedig a Diwygiadau i Orchmynion Traffig mewn amryw o leoliadau yn wardiau Coed Duon, Maes-y-cwmwr, Morgan Jones ac Ystrad Mynach ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ('y Cyngor'), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('Deddf 1984') a Deddf Rheoli Traffig 2004 ('Deddf 2004') a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd â'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 drwy:

Darparu llinellau melyn dwbl ar Greenwood Road, Coed Duon

- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Greenwood Road o wal ffin gyffredin rhifau 11/13, i gyfeiriad y de-ddwyrain i'r llinellau melyn presennol, sef pellter o tua 26m.

Darparu llinellau melyn dwbl yn Hawtin Park, Gelli-haf, Coed Duon

- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Fynediad Hawtin Park, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad ogleddol i Brush Switchgear, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 15m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Fynediad Hawtin Park, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad ogleddol i Brush Switchgear, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 15m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Fynediad Hawtin Park, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad ganol i Brush Switchgear, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 15m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Fynediad Hawtin Park, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad ganol i Brush Switchgear, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 15m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Fynediad Hawtin Park, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad ddeheuol i Brush Switchgear, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 15m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Fynediad Hawtin Park, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad ddeheuol i Brush Switchgear, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 15m.

Darparu llinellau melyn dwbl ar Sir Alfred Owen Way, Ystâd Ddiwydiannol Pontygywindy, Caerffili

- Ar ochr orllewinol Sir Alfred Owen Way, ar y ffordd fynediad i Jewson, o bwynt tua 15m o'r gyffordd â'r brif ffordd fynediad i Ystâd Ddiwydiannol Pontygywindy, i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 157m.
- Ar ochr ddwyreiniol Sir Alfred Owen Way, ar y ffordd fynediad i Jewson, o'r gyffordd â'r brif ffordd fynediad i Ystâd Ddiwydiannol Pontygywindy, i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 175m.
- Ar ochr ogleddol Sir Alfred Owen Way, ar y brif ffordd fynediad i Ystâd Ddiwydiannol Pontygywindy, o'r gyffordd â'r ffordd fynediad i Jewson, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o tua 15m.
- Ar ochr ddeheuol a dwyreiniol Sir Alfred Owen Way, ar y gyffordd gerllaw The Brickyard, o'r gilfan ar Sir Alfred Owen Way, i gyfeiriad y gorllewin a'r de rownd y gornel i ffordd fynediad The Brickyard, am bellter o tua 35m.
- Ar ochr ddeheuol a gorllewinol Sir Alfred Owen Way, ar y gyffordd gerllaw The Brickyard, o'r ffordd fynediad i'r Uned ogleddol, i gyfeiriad y dwyrain a'r de rownd y gornel i ffordd fynediad yr Uned ddeheuol, am bellter o tua 72m.

Darparu llinellau melyn dwbl ar y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, Ystrad Mynach

- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, o bwynt 14m o'r gyffordd â Penallta Road, i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 84m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, o gornel de-ddwyreiniol y garej, i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 10m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, o'r gyffordd â'r Stryd Fawr, i gyfeiriad y de-orllewin a'r gorllewin am bellter o tua 84m.
- Ar ochr dde-ddwyreiniol, ochr ddeheuol ac yna ochr dde-ddwyreiniol y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, o'r gyffordd â'r Stryd Fawr, i gyfeiriad y de-orllewin, y gorllewin a'r de-orllewin i bwynt 14m o'r gyffordd â Penallta Road, am bellter o tua 158m.

Darparu cyfyngiadau Dim Llwytho ar Unrhyw Adeg ar Penallta Road, y Stryd Fawr a'r lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, Ystrad Mynach

- Ar ochr orllewinol Penallta Road o ymyl ogleddol y Gilfach Aros Cyfyngedig y tu allan i rif 29 Penallta Road, i gyfeiriad y gogledd i ymyl ddeheuol y Gilfach Aros Cyfyngedig y tu allan i rif 33 Penallta Road, sef pellter o tua 15m.
- Ar ochr orllewinol Penallta Road o ymyl ddeheuol y Gilfach Aros Cyfyngedig y tu allan i rif 9 Penallta Road, i gyfeiriad y de i ymyl ogleddol y Gilfach Llwytho'n Unig y tu allan i rif 1 Stryd Fasnachol, sef pellter o tua 62m.
- Ar ochr ddwyreiniol Penallta Road o ymyl ddeheuol y Gilfach Aros Cyfyngedig y tu allan i rif 12 Penallta Road, i gyfeiriad y de, y de-ddwyrain, y de a'r gogledd-ddwyrain i ymyl ogleddol y Gilfach Llwytho'n Unig y tu allan i rif 7 Bedwylwyn Road, sef pellter o tua 161m.
- Ar ochr ogledd-orllewinol y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, o'r gyffordd â Penallta Road, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o tua 10m.
- Ar ochr dde-ddwyreiniol y lôn gefn rhwng y Stryd Fawr a Penallta Road, o'r gyffordd â Penallta Road, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o tua 14m.

Darparu cyfyngiadau Dim Aros ar ddydd Mercher rhwng 6am a 7am ar y ffordd fynediad i Ysgol Gymraeg Bro Allta oddi ar Central Street, Ystrad Mynach

- Ar ochr ogleddol y ffordd fynediad i Ysgol Gymraeg Bro Allta oddi ar Central Street, o'r lôn gefn ar ben y ffordd fynediad, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o tua 5m.
- Ar ochr ogledd-orllewinol y ffordd fynediad i Ysgol Gymraeg Bro Allta oddi ar Central Street, o'r gyffordd â Central Street, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o tua 5m.
- Ar ochr dde-ddwyreiniol y ffordd fynediad i Ysgol Gymraeg Bro Allta oddi ar Central Street, o'r gyffordd â Central Street, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o tua 5m.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft, cynlluniau sy'n dangos y rhannau o'r briffordd dan sylw a datganiad o resymau'r awdurdod traffig dros wneud y Gorchymyn yn [www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig](http://www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig) a gellir hefyd eu harchwilio yn rhad ac am ddim drwy apwyntiad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaethau Cyfreithiol, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG rhwng 09:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus), rhwng 13/12/2023 a 4/1/2024, gan ddyfynnu'r cyfeirnod SCF/5011410.

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Isadrn Rheoli Traffig drwy ffonio **01443 866948** neu e-bostio [godsat@caerffili.gov.uk](mailto:godsat@caerffili.gov.uk)

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rheswm dros wneud hynny, drwy e-bostio [GorchmynionTraffig@caerffili.gov.uk](mailto:GorchmynionTraffig@caerffili.gov.uk) erbyn 4 Ionawr 2024, neu ffonio **01443 866948**.

Gall gohebiaeth gael ei datgelu yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Dyddiad: **13 Rhagfyr 2023**  
Marcus Lloyd,  
Pennaeth Isadeiledd, Tŷ Tredomen,  
Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WF